**Cofnodion Drafft: 23-07 (24 Ionawr 2024)**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Medwin Hughes | Cadeirydd |
| Grace Quantock | Dirprwy Gadeirydd |
| Bamidele Adenipekun | Anweithredol |
| Jack Evershed | Anweithredol |
| Barbara Harrington | Anweithredol |
| Karen Lewis | Anweithredol |
| Rajan Madhok | Anweithredol |
| Jason Smith | Anweithredol |
| Alyson Thomas | Prif Weithredwr (PW) |
| Mwoyo Makuto | Aelod Cyswllt |

**Mynychwyr:**

| | |
|---|---|
| Ben Eaton | Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Sue Evans | Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe |
| Ceri Sullivan | Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Eleri Soanes | Swyddog Cymorth Gweinyddol |
| Sharon Walters | Rheolwr Busnes |

## Croeso a chyflwyniadau, datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau
## Materion sy’n codi

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Mutlow.

1.3 Trafodwyd y gofrestr datganiad o ddiddordeb. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod y gofrestr datganiad o ddiddordeb a oedd wedi'i chynnwys gyda'r papurau wedi'i diweddaru ers hynny i adlewyrchu'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref. Mae'r gofrestr hefyd wedi'i diwygio i adlewyrchu nad oes gan Jason Smith ddiddordeb bellach yn Cymorth Cymru ond ei fod bellach yn Bennaeth Datblygiad, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn Better Story.

1.4 Cytunwyd bod pob datganiad o ddiddordeb arall yn gywir ac yn gyfredol. Ni chodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r eitemau i'w trafod.

1.5 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd mai hwn oedd y cyfarfod olaf y byddai Ceri Sullivan yn ei fynychu cyn dychwelyd i'w rôl o fewn Llywodraeth Cymru. Diolchodd pawb i Ceri am ei gwaith arbennig a'r gefnogaeth a roddwyd i'r Bwrdd a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

1.6 Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 a'r cyfarfod arbennig o'r bwrdd a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

1.7 Cytunwyd ar y log gweithredoedd a phenderfyniadau.

1.8 Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y camau gweithredu a ganlyn:

- A23-05-08: Roedd Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru.
  Roedd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol wedi rhoi gwybod ers i Grwner Gogledd Cymru ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'i bryderon ynghylch gwasanaethau fasgwlaidd a'r posibilrwydd o ymchwiliad cyhoeddus, bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi bwrw ymlaen â threfniadau i gynnwys a chefnogi cleifion a theuluoedd y mae gofal fasgwlaidd gwael yn effeithio arnynt yng Ngogledd Cymru.
  Roedd Llais yn ymwneud yn llawn â'r gwaith hwn, ac roedd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol wedi hysbysu bod y cleifion a'r teuluoedd a ymatebodd i gysylltiad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel rhan o'r broses hon yn fodlon â'r agwedd adeiladol oedd yn cael ei mabwysiadu.
  Gofynnodd y Bwrdd am y berthynas rhwng Llais a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn fodlon bod y berthynas wedi datblygu i fod yn un adeiladol a chadarnhaol. O ystyried y gweithgaredd parhaus yn y maes hwn a chyfranogiad gweithredol parhaus Llais Gogledd Cymru, roedd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol wedi dweud nad oedd angen i'r Bwrdd gymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.
- A23-06-02: Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ar y defnydd posib o fannau sector


Draft

cyhoeddus ar gyfer Llais. Mae ymweliad diweddar ag adeilad Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd wedi nodi gofod posibl a allai fod ar gael i'w ddefnyddio gan y tîm cenedlaethol yn ogystal â rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg.
Mae angen ymchwilio ymhellach i ddeall addasrwydd a chostau. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â phrydles swyddfa Caerfyrddin, a'r awdurdod lleol yn cau'r swyddfeydd y mae staff Llais yn eu meddiannu yn Aberhonddu yn y dyfodol.

## Adroddiad gan y Cadeirydd

2.1 Nododd y Cadeirydd yr heriau o sefydlu seilwaith sefydliad newydd a sut mae Llais yn sicrhau capasiti ychwanegol ledled Cymru i hwyluso cyflawni ei flaenoriaethau.

2.2 Soniodd y Cadeirydd am yr adroddiad 'A yw Cymru'n Decach' a'i arwyddocâd i Llais. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar yr adolygiad mwyaf cynhwysfawr o gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf yn 2018. Mae'r adroddiad yn amlygu'r 9 nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

2.3 Amlygodd y Cadeirydd rai o'r materion o fewn yr adroddiad sy'n peri pryder mawr i Llais. Roedd hyn yn cynnwys nifer y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi, y cynnydd mewn amseroedd aros am ofal y GIG a'r straen ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r adroddiad yn dangos pwysau sylweddol yn y system iechyd y bydd angen i Llais eu hystyried yn ofalus wrth iddo symud ymlaen.

2.4 Nododd y Bwrdd y dylai Llais edrych ar ffyrdd y gallai weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ymgysylltu ymhellach gyda'r nod o ddatblygu atebion i'r materion hyn.

**A24-01-01:** Cytunodd aelodau'r Bwrdd y dylai Llais weithio ar y cyd â'i bartneriaid i ymateb i'r materion a godwyd yn yr adroddiad ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Draft

3.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad yn ymdrin â gweithgareddau allweddol yr oedd wedi ymgymryd â hwy ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

3.2 Roedd hi wedi cyfarfod â nifer o bartneriaid allweddol i siarad am rôl Llais a sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfarfod â Chomisiynydd Diogelwch Cleifion Lloegr. Roedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau i rannu gwybodaeth a chydweithio i gryfhau lleisiau pobl ar faterion diogelwch cleifion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn y DU.

- Cyflwyno i fyrddau Addysg a Gwella Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar ein gweithgareddau hyd yma a threfniadau i weithio mewn partneriaeth wrth symud ymlaen.

- Mynychu cyfres o uwchgynadleddau Gofal Iechyd yn canolbwyntio ar gyrff y GIG yng Nghymru. Cynhelir yr uwchgynadleddau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac fe'u cynhelir ddwywaith y flwyddyn. Maent yn rhoi cyfle i ystod eang o gyrff statudol rannu'r hyn y maent wedi bod yn ei wneud a'r hyn y mae hyn wedi'i ddweud wrthynt am y GIG yng Nghymru.

  Roedd Cyfarwyddwyr Rhanbarthol yn bresennol ar gyfer y sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar eu rhanbarth penodol. Roedd trafodaethau'r uwchgynhadledd yn gyfle i ddod â gwybodaeth ynghyd i nodi themâu cyffredin a materion sy'n dod i'r amlwg i'w trafod gyda Llywodraeth Cymru.

- Treulio diwrnod gyda Gofalwyr Cymru i glywed am eu hymgyrchoedd a'u gweithgareddau yng Nghymru, yn ogystal â'r gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi cyflogwyr i ddatblygu gweithle cefnogol i bobl â chyfrifoldebau gofalu.

3.3 Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi bod yn rhan o'r panel arbenigol yng Nghynhadledd Gofalwyr Cymru 2023 a oedd yn canolbwyntio ar yr anghenion a'r materion sy'n wynebu gofalwyr yng Nghymru. Roedd

Draft

trafodaethau pellach gyda Chadeirydd Cynghrair Cynhalwyr Cymru wedi canolbwyntio ar y ffyrdd gorau o gymryd rhan yn y Gynghrair a chydweithio i lywio a dylanwadu ar gynnydd a gweithgarwch ar ddatblygiadau allweddol.

3.4 Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd fod rhaglen sylweddol o weithgarwch yn ymwneud â recriwtio wedi parhau ers y cyfarfod blaenorol. Mae nifer o rolau ar y cam penodi. Roedd hyn yn cynnwys rolau'r Rheolwr Llywodraethu, yr Eiriolwr Cwynion a'r Cynorthwyydd Personol ar gyfer y Tîm Cenedlaethol. Roedd sawl rôl yn cael eu hysbysebu, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyllid a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

3.5 Hysbysodd y Prif Weithredwr y Bwrdd am ymddeoliad 2 uwch arweinydd yn fuan. Byddai Stephen Allen, Cyfarwyddwr Rhanbarthol rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth. Roedd y rôl yn cael ei hysbysebu gyda dyddiad cau o 11 Mawrth 2024.

3.6 Byddai Alan Williams, Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn ymddeol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd y Bwrdd yn dymuno nodi eu diolch ffurfiol i Stephen ac Alan am eu cyfraniad sylweddol i waith y cyn cynghorau iechyd cymuned ac i Llais. Dymunwyd yn dda i'r ddau i'r dyfodol.

3.7 Bu'r Bwrdd yn myfyrio ar weithgarwch recriwtio presennol ac i ba raddau y bydd hyn yn mynd i'r afael â materion capasiti parhaus. Nododd y Prif Weithredwr effaith gadarnhaol recriwtio'n barhaol i rolau allweddol wrth gydnabod y capasiti a'r amser fydd ei angen i gefnogi staff mewn rolau newydd a'r angen i adlewyrchu hyn yn y cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer Llais.

3.8 Nododd yr aelodau bwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer rolau o fewn Llais. Cytunwyd y dylid adrodd rhagor o wybodaeth i'r Bwrdd ar y mater hwn.

3.9 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr grynhoi'r 3 risg gweithredol allweddol ar gyfer Llais yn ymwneud â'n gweithlu. Ymatebodd y Prif Weithredwr fod y rhain yn ymwneud â chapasiti staff, cynllunio a chyflwyno rhaglen ddysgu gynhwysfawr a chefnogi datblygiad ehangach ein pobl.

Draft

**A24-01-02:** Y Tîm Cenedlaethol i ddarparu rhagor o wybodaeth am amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n ymgeisio am rolau o fewn Llais.

## Adroddiad gan Bwyllgorau'r Bwrdd: Archwilio a Sicrwydd Risg

4.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch diweddar.

4.2 Cyfarfu'r pwyllgor diwethaf ym mis Tachwedd 2023. Yn y cyfarfod hwnnw roedd yr aelodau wedi cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 i Fwrdd Llais ac wedi cytuno ar gynllun archwilio Archwilio Cymru 2022/23.

4.3 Roedd y pwyllgor wedi ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac wedi gofyn am amlinelliad o'r broses rheoli risg.

4.4 Ers y cyfarfod diwethaf, roedd 2 aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi'u penodi. Mae gan yr aelodau hyn sgiliau penodol mewn cyllid ac archwilio a seiberddiogelwch a digidol. Y gobaith oedd y byddai'r ddau aelod newydd ar gael i fynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mawrth 2024.

4.5 Nododd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cyfarfod dros 2 ddiwrnod ym mis Mawrth 2024. Byddai hyn yn galluogi cyfarfod ffurfiol ac yna sesiwn effeithiolrwydd pwyllgor y diwrnod canlynol.

## Adroddiad Cyllid

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cyllid i'r Bwrdd.

5.2 Nododd y Bwrdd fod yr holl lythyrau dirprwyo cyllidebol wedi'u hanfon a'u llofnodi gan bob deiliad cyllideb, yn cadarnhau ffigurau'r gyllideb yn ogystal â manylu ar gyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

5.2 Mae'r adroddiad cyllid ym mis 9 (Rhagfyr 2023) yn adrodd tanwariant o £572,000 tra bod rhagolwg diwedd y flwyddyn ar gyfer tanwariant o

Draft

£75,000.  Mae hyn yn seiliedig ar Llais yn amsugno, yn 2023/24, gostau ychwanegol yn y meysydd canlynol:

- Dyfarniadau Cyflog 2023/24 £259,000
- Contract CRM Capgemini £250,000
- Prosiectau ac Asiantaeth
- Swydd ychwanegol yn y tîm cenedlaethol.

5.3 Mae'r Pennaeth Cyllid yn cyfarfod â deiliaid cyllidebau bob mis i adolygu a diweddaru'r rhagolwg ariannol.  Mae potensial i'r tanwariant gynyddu ymhellach.  Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd fod gwaith ar y gweill i nodi lle gall Llais ddefnyddio'r tanwariant i gynyddu capasiti a chefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau.

## Adroddiad Risg Gorfforaethol

6.1 Rhoddwyd adroddiad cryno i'r Bwrdd sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn pob un o'r risgiau o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

6.2 Hysbyswyd y Bwrdd bod diweddariadau pellach wedi'u gwneud ers i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg graffu ar y gofrestr risg gorfforaethol ym mis Tachwedd.  Ym mis Hydref 2023 roedd y Bwrdd wedi cytuno ar y risgiau corfforaethol ar y sail y byddai risg ychwanegol yn cael ei chynnwys ar seiberddiogelwch.  Roedd hyn bellach wedi'i weithredu.

6.3 Nododd y Bwrdd:

- Mae ffocws y risg o amgylch gwirfoddolwyr wedi newid
- Roedd trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ynghylch statws cyfreithiol y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac indemniad y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn.

6.4 Nododd y Bwrdd y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dros y misoedd nesaf. Bydd unrhyw argymhellion i newid ein hymagwedd yn cael eu dwyn yn ôl i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

6.5 Nododd y Bwrdd yr adroddiad cryno a chytunwyd ar y risg seiberddiogelwch ychwanegol a newid ffocws risg gwirfoddolwyr o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**D24-01-01**: Cytunodd y Bwrdd ar y risg seiberddiogelwch ychwanegol a newid ffocws risg gwirfoddolwyr o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol.

## Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe

7.1 Darparodd Cyfarwyddwr Rhanbarthol rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe drosolwg o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe a'r gweithgarwch rhanbarthol a oedd wedi digwydd yn ddiweddar.

7.2 Clywodd y Bwrdd:

- Fe ddarperir gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, Awdurdod Lleol Abertawe a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Bae'r Gorllewin.
- Mae dwy ardal drefol o fewn y rhanbarth, ac mae ganddi boblogaeth ddiwylliannol amrywiol.
- Ystyrir bod Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn disgyn yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae disgwyliad oes 20-25% yn llai na chyfartaledd Cymru.
- Gwasanaethir yr ardal gan brif safleoedd ysbytai yn Nhreforys a Singleton, yn ogystal â gwasanaethau allweddol fel Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.
- Ysbyty Treforys yw un o adrannau brys prysuraf Gymru. Mae'n cynnal gwasanaethau arbenigol ar gyfer trawma ac orthopaedeg, meddygaeth arennol, niwroleg, llawdriniaeth y geg a macsilo-wynebol a gwasanaeth gwefus a thaflod hollt rhanbarthol i blant ac oedolion.
- Mae ysbyty cymunedol a gwasanaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i brif safleoedd yr ysbyty. Mae 51 o bractisau meddygon teulu, 72 o bractisau deintyddol (gan gynnwys orthodeintyddion), 32 o bractisau optometreg a 92 o fferyllfeydd cymunedol.
- Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe boblogaeth sy'n heneiddio o 390,000.

Draft

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

7.3 Roedd tîm Llais sy’n gwasanaethu rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi canolbwyntio ar ystod o weithgareddau:

- Hyrwyddo gwaith Llais yn genedlaethol ac yn lleol i roi gwybod i bobl beth yw Llais.
- Sefydlu perthnasau newydd a chryfhau’r rhai sydd wedi’u sefydlu eisoes
- Parhau i wrando ar yr hyn y mae pobl am ei ddweud wrthym am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyfarfod â llawer o gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol, gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig a chynghorau lleol ar gyfer gwasanaethau gwirfoddol.
- Cyflwyno i amrywiaeth o gyfarfodydd a grwpiau, gan gynnwys, er enghraifft, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Aelodau anweithredol Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, Fforwm y Bobl a grwpiau trydydd sector.
- Cyfarfod â Chyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am arwain newidiadau i wasanaethau, a chreu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar ffyrdd o weithio o amgylch newidiadau i wasanaethau.
- Cynnal rhaglen o ymweliadau i glywed gan bobl wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau.  Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â meddygfeydd mewn tair ardal ward, yn ogystal ag ymweliadau i siarad â chleifion yn Ysbyty Treforys ac ysbytai Castell-nedd Port Talbot.
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol a theuluoedd a gofalwyr sy'n byw gyda dementia.  Roedd adroddiad ar y rhaglen waith hon i'w gyhoeddi'n fuan.
- Dathlu amrywiaeth, gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon. Roedd Llais wedi cydweithio â Chanolfan Affrica Abertawe ar y gwaith hwn, a oedd wedi canolbwyntio ar brofiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o gael mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyflwyno amrywiaeth o sylwadau i wasanaethau ar faterion yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyflwyno rhaglen o weithgareddau ymgysylltu cymunedol. Roedd hyn wedi bod yn ddwys o ran adnoddau, gydag effaith sylweddol ar y tîm bach o staff.

7.2 Dywedodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol wrth y Bwrdd fod y rhanbarth yn datblygu cynllun i ymgysylltu a chefnogi pobl i gymryd rhan yn yr

Draft

adolygiad annibynnol o wasanaethau mamolaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

7.3 Diolchodd y Cadeirydd i ranbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe am eu gwaith caled ac edrychodd ymlaen at weld y camau gweithredu a argymhellwyd o'r gwaith dementia.

## Cynllunio a chynnydd 2023/24

8.1 Derbyniodd y Bwrdd bapur ar drefniadau cynllunio ac adrodd ar gynnydd, yn gysylltiedig â'r cynllun blynyddol diweddaraf a'i amcanion. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cynnig i gyflwyno trefniadau newydd i gefnogi ein cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad sefydliadol wrth gyflawni cynlluniau cytunedig.

8.2 Roedd aelodau'r Bwrdd o'r farn y byddai'r fframwaith newydd, y cyfeirir ato fel y Strwythur Dadansoddiad Gwaith (SDG) yn rhoi darlun clir, manwl o'r rhaglen strwythuredig o gamau gweithredu a gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am berfformiad drwy ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol.

8.2 Nododd y Bwrdd y papur cynllunio a chynnydd ac roedd yn edrych ymlaen at weld canlyniadau yn y dyfodol.

## Amlinelliad cynllunio strategol 2024-2027

9.1 Derbyniodd y Bwrdd bapur yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu cynllun strategol. Byddai'r cynllun strategol yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd, a byddai'n cael ei gynllunio i arwain Llais drwy ei flynyddoedd ffurfiannol, gan osod sylfaen gref ar gyfer twf cynaliadwy a darparu gwasanaethau effeithiol.

9.2 Byddai'n:

- Nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad
- Alinio a mapio ar draws ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, gan gynnwys gweithio o fewn fframwaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant, Cymru Iachach, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol


Draft

(Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), a chyfreithiau a rhwymedigaethau cyd-destunol eraill, a strategaethau perthnasol.
- Cysylltiad â strategaethau a chynlluniau ategol, gan gynnwys, er enghraifft, ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a strategaethau sy'n ymwneud â'n gwirfoddolwyr, seilwaith digidol a defnydd a chyfathrebu ac ymgysylltu.

9.3 Bydd y cynllun yn cyflwyno 5 prif nod:

- Eirioli a dylanwadu ar wasanaethau i fod yn bobl-ganolog, yn hygyrch, yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion unigol, cymunedol a chenedlaethol.
- Pwysau ar wasanaethau a'r effaith a gaiff hyn ar bobl a chymunedau, gwasanaethau a'r gweithlu.
- Aliniad, integreiddio, a phartneriaethau. Dod o hyd i'n ffordd drwy'r heriau.
- Digidol, Data, Technoleg Gwybodaeth a Deallusrwydd Artiffisial (DA) a'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol pobl.
- Esblygu fel sefydliad i ddod yn sefydliad aeddfed, sy'n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo ac sy'n uchelgeisiol.

9.4 Nododd y Bwrdd y sefyllfa bresennol a chytunwyd y dylid darparu cyfleoedd pellach i drafod datblygiad y strategaeth.

**A24-01-03**: Cytunodd y Bwrdd y dylid darparu cyfleoedd pellach i aelodau drafod datblygiad y strategaeth.

## Dyraniad cyllid amlinellol 2024/25

10.1 Cyflwynwyd dyraniad cyllid drafft i'r Bwrdd ar gyfer 2024/25. Er nad yw llythyr cylch gwaith 2024/25 a'r llythyr ariannu wedi'u cyhoeddi eto, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllideb ddrafft ar gyfer 2024/25. Nododd yr aelodau hefyd fod llythyr ariannu 2023/24 wedi'i anfon i Llais ym mis Mai 2023.

10.2 Yn 2023/24 roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagdybio llithriad ar ddyddiadau penodi ar gyfer swyddi newydd yn ystod y flwyddyn, gan leihau dyraniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gan 25% i adlewyrchu hyn. Nid oedd cyllid i gwrdd â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog blynyddol a chwyddiant wedi'i gynnwys yn y dyraniad cyllid, gan fod Llais yn gallu cwrdd â'r costau ychwanegol hyn trwy lithriad. Yn 2024/25 bydd angen i Llais gael cyllid digonol i gwrdd â'r

Draft

dyfarniad cyflog blynyddol a chwyddiant. Roedd angen deialog bellach gyda Llywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth glir o'r dull o ymdrin â hyn.

10.3 Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd y byddai swyddogion yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn fuan. Un o'r blaenoriaethau i'w drafod yn y cyfarfod hwnnw fyddai sefydlu pryd y gall Llais ddisgwyl derbyn ei lythyr ariannu ar gyfer 2024/25.

10.4 Nododd y Prif Weithredwr yr amgylchedd lle'r oedd y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal, yn arbennig maint yr heriau ariannol sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi newid cyllid i gefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

10.5 Nododd y Bwrdd y dyraniad cyllid drafft ar gyfer 2024/25 a thrafodaethau parhaus gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gwblhau'r dyraniad cyllid.

## Gwerthoedd a fframwaith ymddygiad

11.1 Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar gynnydd datblygiad gwerthoedd a fframwaith ymddygiad Llais. Yn dilyn llwyddiant y gynhadledd staff y llynedd, cynlluniwyd digwyddiad dilynol ar gyfer staff, yn ogystal â chynhadledd gwirfoddolwyr ar wahân. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, roedd y ddau ddigwyddiad wedi'u gohirio.

11.2 Roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad cynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys ein pobl, partneriaid a rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- Datblygu trefniadau i gysylltu ein hymddygiad dymunol o fewn fframwaith sgiliau newydd ar gyfer staff
- Rhaglen adolygu ar gyfer holl bolisïau a gweithdrefnau Llais i sicrhau eu bod yn galluogi ac yn cefnogi ein gwerthoedd a'n hymddygiad disgwyliedig

11.2 I gefnogi datblygiad pellach diwylliant sefydliadol cyson a chyffredin, mae Llais hefyd wedi comisiynu gweithwyr proffesiynol datblygiad sefydliadol i weithio gyda staff yn eu timau i ddeall deinameg tîm a chamau gweithredu sydd eu hangen i adeiladu timau effeithiol a chefnogi ffyrdd newydd o weithio.

11.3 Nododd y Bwrdd y dull a ddefnyddir i ddatblygu a disgrifio ymddygiad dymunol i gefnogi ein gwerthoedd, y sefyllfa bresennol o ran datblygu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad. Gofynnodd yr aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

**A24-01-04**: Rhoddir diweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygiad fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad.

## Fframwaith sgiliau a rhaglen dysgu a datblygu

12.1 Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar y cynnydd o ran datblygu fframwaith sgiliau a strategaeth a rhaglen cefnogi dysgu a datblygu ar gyfer staff Llais.

12.2 Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth a rhaglen dysgu a datblygu sy'n cefnogi ein strategaeth a'n cynlluniau sy'n dod i'r amlwg, rydym wedi ymgysylltu â gwasanaethau arweinydd rhaglen sgiliau a dysgu a datblygu dros dro, tan fis Mawrth 2024.

12.3 Mae gwaith ar ddatblygu fframwaith sgiliau yn mynd rhagddo. Ym mis Tachwedd 2023, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i gynnal ymarfer tendro ffurfiol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a gwybodaeth a nodwyd a achoswyd gan gylch gwaith estynedig Llais a recriwtio staff newydd ar raddfa fawr.

12.2 Mae rhaglen ddysgu yn cael ei datblygu ar gyfer staff a bydd hefyd yn cael ei chyflwyno i wirfoddolwyr. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'n hyder a'n cymhwysedd i weithio mewn gwahanol ffyrdd.

12.3 Er mwyn i ni allu darparu'r hyfforddiant hwn yn 2023-2024, rydym wedi cwblhau'r broses gaffael ar gyfer y rhaglen dysgu gwirfoddolwyr. Hwyluswyd hyn gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG ac fe'i dyfarnwyd i Practice Solutions Ltd. Bydd y rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr yn dechrau ym mis Ionawr ac yn cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2024.

12.4 Bydd ail gam yr hyfforddiant ar gyfer staff Llais a bydd yn destun proses dendro ar wahân sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Disgwylir i'r hyfforddiant hwn ddechrau ar ôl Ebrill 2024.



Draft

## Diweddariad gwirfoddolwyr

13.1 Rhoddodd yr Arweinydd Corfforaethol ar gyfer gwirfoddoli diweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygiad ein fframwaith gwirfoddoli.

13.2 O fis Ebrill 2023 ymlaen, cymerodd Cyfarwyddwr Rhanbarthol Powys gyfrifoldeb arweinyddiaeth gorfforaethol dros wirfoddolwyr. Mae Rheolwyr Gweithrediadau Rhanbarthol yn goruchwylio'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd a chyfathrebu â gwirfoddolwyr rhanbarthol.

13.3 Ym mis Rhagfyr 2023 roedd gan Llais 132 o wirfoddolwyr ledled Cymru, gostyngiad o 145 ym mis Hydref 2023. Er nad oes rhesymau manwl ar gyfer unigolion yn gadael ar gael eto, mae'n debygol bod rhai gwirfoddolwyr a fu gynt yn aelodau o'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi gadael oherwydd ymrwymiadau eraill, neu oherwydd bod eu cyfranogiad wedi dod i ben yn naturiol ar ôl cwblhau'r ddaliadaeth ddisgwyliedig wreiddiol ar gyfer y cynghorau iechyd cymuned, neu oherwydd nad yw gofynion newydd y rôl yr hyn yr oeddent yn edrych amdano, o ystyried y newidiadau o'r model 'aelod' blaenorol.

13.4 Mae gweithgor o Reolwyr Gweithrediadau Rhanbarthol wedi cydweithio i roi'r prosesau a'r dogfennau craidd ar waith sy'n ein galluogi i ymuno â'n gwirfoddolwyr, eu hyfforddi, eu cyfathrebu a'u cefnogi. Mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl, ond mae'r canlynol bellach yn eu lle neu ar y gweill:

- Amrywiaeth o ddisgrifiadau rôl hyblyg
- Proses recriwtio glir, ddiffiniedig
- Polisi a phroses ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Proses ar gyfer cardiau adnabod
- Rhaglen sefydlu interim
- Ffurfiau gweinyddol eg. Treuliau, perthynas agosaf, rôl(au), ymrwymiad amser
- Cronfa ddata Cymru gyfan
- Cyfathrebu rhanbarthol / gweithdai / diwrnodau datblygu
- Mae strategaeth ddrafft wedi'i pharatoi yn barod i gyd-fynd â'r strategaeth sefydliadol o 2024 ymlaen.
- Adolygwyd polisïau allweddol gan gynnwys diogelu, treuliau, safonau ymddygiad

- Mae gwirfoddolwyr yn gallu cymryd rhan ar draws yr holl rolau a nodwyd lle maent wedi nodi dewis
- Mae llawlyfr gwirfoddolwyr wedi'i ddylunio.

13.5 Trafododd y Bwrdd y problemau a wynebwyd gan y cyn cynghorau iechyd cymuned wrth recriwtio aelodau newydd. Er bod aelodau'r Bwrdd yn cydnabod bod y broses newydd yn llawer llai ffurfiol, roeddent yn bryderus i sicrhau nad oedd y trefniadau'n 'drwm o ran proses' mewn ffordd a allai atal pobl rhag cymryd rhan. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau diangen ac i gydnabod bod pobl eisiau gwirfoddoli mewn gwahanol ffyrdd.

13.7 Awgrymwyd y gallai pobl gymryd rhan yng ngwaith Llais mewn ffyrdd eraill, efallai fel cyfeillach neu ffrind. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol fod hyn yn rhywbeth oedd yn cael ei ystyried.

13.8 Gofynnodd y Cadeirydd am farn gwirfoddolwr Llais o ranbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a oedd yn bresennol. Gwnaed nifer o awgrymiadau. Roedd y rhain yn cynnwys cylchlythyrau rheolaidd, mwy o wirfoddolwyr mewn cymunedau gwledig, gwirfoddolwyr arweiniol i wthio gwaith Llais yn ei flaen, darparu mwy o gefnogaeth dechnegol a TG a phresenoldeb Llais mewn ysgolion i siarad â phobl ifanc am ddod yn wirfoddolwr.

13.9 Nododd y Bwrdd y sefyllfa bresennol ond roedd hefyd yn awyddus i sicrhau bod ymgysylltiad parhaus â gwirfoddolwyr newydd a chefnogaeth i gyn-aelodau cyngor iechyd cymuned wrth symud ymlaen.

## Diweddariad systemau TG

14.1 Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar ddatblygiad prosiectau seilwaith digidol allweddol. Mae prosiect y system Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM) yng nghamau olaf ei ddatblygiad Cam 1. Mae rhaglen hyfforddi ar gyfer holl staff wedi'i datblygu. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu i gyd-fynd ag wythnos y dyddiad mynd yn fyw.

Draft

14.2 Mae gwiriad iechyd TG ar y datblygiad CRM newydd ar y gweill ar hyn o bryd a bydd cynnydd pellach yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

14.3 Mae rhaglen waith y defnyddiwr terfynol bron wedi'i chwblhau ac mae dau faes gwaith yn dal heb eu cyflawni. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Centerprise i ddatblygu contract cymorth a chyda Llywodraeth Cymru i edrych ar gyflenwr amgen i gefnogi'r trefniant rhwydwaith ar gyfer rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

14.4 Nododd y Bwrdd fod hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r rhan fwyaf o staff ar y system SharePoint. Mae hyn wedi cael derbyniad da gan staff a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2024.

## Adolygu polisïau a gweithdrefnau

15.1 Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar ddatblygiad trefniadau i adolygu ein fframwaith llywodraethu, gan gynnwys ein polisi a'n gweithdrefnau. Cyn i Llais ddod yn weithredol, mabwysiadodd y Bwrdd ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau, y mwyafrif ohonynt wedi'u defnyddio gan y Bwrdd blaenorol a Chynghorau Iechyd Cymuned. Mae dros 150 o bolisïau, gweithdrefnau, safonau a dogfennau canllaw.

15.2 Cytunwyd y dylid adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn ar ôl blwyddyn o weithredu i benderfynu a oeddent yn addas i'r diben.

15.3 Yn ystod y misoedd cyntaf o weithredu, nododd Llais rai bylchau a meysydd i'w datblygu yn ei fframwaith llywodraethu, gan adlewyrchu anghenion gwahanol Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

15.4 Cynigir cynnal ymarfer caffael i ddewis cyflenwr i adolygu ein fframwaith llywodraethu presennol. Byddai hyn yn cynnwys adolygiad o'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys ein dogfennau llywodraethu lefel uchel yn ogystal â dadansoddiad o fylchau o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol. Byddai adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau'n cael ei gynnal gan awgrymu newidiadau ac ychwanegiadau lle bo angen er mwyn rhesymoli a symleiddio dogfennau.

15.5 Byddai hyn yn cael ei wneud dros 2 gam. Byddai Cam 1 yn canolbwyntio ar ein fframwaith llywodraethu lefel uchel, yn cael ei gynnal ar unwaith. Byddai Cam 2 yn cynnwys adolygiad manylach o'n polisïau a'n gweithdrefnau. Byddai hyn yn cael ei ddatblygu unwaith y

bydd nifer o rolau sy'n allweddol i lunio ein polisïau a'n gweithdrefnau yn eu swyddi. Er mwyn cyflawni hyn mewn 2 gam, byddai angen 2 ymarfer caffael ar wahân.

15.4 Nododd y Bwrdd bwysigrwydd gweithio gyda chyflenwr allanol sy'n dangos dealltwriaeth gref o natur a graddfa Llais, a chael fframwaith llywodraethu sy'n glir ac yn syml i weithio o'i fewn. Nododd aelodau'r Bwrdd gyfle clir i symleiddio'r nifer o bolisïau a gweithdrefnau wrth symud ymlaen, a'r angen i adlewyrchu gofynion Llais fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

15.5 Nododd y Bwrdd y rhesymeg dros adolygu'r fframwaith llywodraethu a chytunwyd ar yr angen am gymorth allanol i wneud y gwaith hwn.

15.6 Cytunodd y Bwrdd ar y dull arfaethedig.

**A24-01-05**: Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal ymarfer caffael dau gam i ddewis cyflenwr i gynnal adolygiad o'n trefniadau llywodraethu. Cam 1 i adolygu ein trefniadau llywodraethu lefel uchel a cham 2 i gynnal adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Llais.

## Proses adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd

16.1 Cyflwynwyd cynigion ar ddull o gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, i'r Bwrdd gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

16.2 Trafododd y Bwrdd y dull gweithredu arfaethedig, gan gynnwys y meysydd ffocws y dylid eu cynnwys yn holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd. Nododd yr aelodau fod angen gwneud rhagor o waith ar y datganiadau i'w cynnwys yn holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd i adlewyrchu cyd-destun Bwrdd yn ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu.

**A24-01-06**: Gwaith pellach i'w wneud ar y datganiadau i'w cynnwys yn holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd.

**D24-01-04**: Cytunodd y Bwrdd ar y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer proses adolygu effeithiolrwydd y bwrdd.

## Comisiwn Bevan: sgwrs â’r cyhoedd

17.1 Crynhodd y Cadeirydd ganfyddiadau allweddol yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Bevan o’r enw Sgwrs gyda’r Cyhoedd – heriau a chyfleoedd ar gyfer newid. Roedd Llais wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, gan annog cyfranogiad mewn ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chefnogi rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol.

17.2 Yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad, cysylltodd Comisiwn Bevan â Llais i drafod sut y gallem gydweithio i symud y camau nesaf ymlaen.

17.2 Cyfarfu Cadeirydd a Phrif Weithredwr Llais yn ddiweddar â Chyfarwyddwr Comisiwn Bevan, Dr Helen Howson, a chytunwyd y dylid cynnal cyfarfod pellach gyda Chadeirydd Comisiwn Bevan ym mis Chwefror 2024. Byddai hyn yn rhoi cyfle i Llais ystyried yr adroddiad ymhellach a thrafod y potensial i gydweithio i ganolbwyntio ar ymgysylltu pellach â’r cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â’n rôl a’n cylch gorchwyl.

17.3 Cytunodd y Bwrdd y byddai Rajan Madhok yn ystyried yr adroddiad yn fwy manwl ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

**A24-01-07**: Rajan Madhok i ystyried adroddiad Comisiwn Bevan yn fwy manwl ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

## Unrhyw fusnes arall

14.1 Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

## Rhagolwg

15.1 Nodwyd a chydnabuwyd y rhagolwg fel dogfen waith a fyddai'n cael ei diweddaru i adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol.

## Cwestiynau gan y cyhoedd

16.1 Nododd y Cadeirydd na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

16.2 Terfynwyd y cyfarfod.



Draft